



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL ETHOLIADAU CYMRU (CORONAFEIRWS)**

**Memorandwm Esboniadol  
yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol  
a'r Nodiadau Esboniadol**

**27 Ionawr 2021**

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

### **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), a gyflwynwyd gennyf ar 27 Ionawr 2021, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

### **Julie James AS**

Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

27 Ionawr 2021

# Tudalen Gynnwys

## Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

- |   |                    |
|---|--------------------|
| 1. Disgrifiad   | Tudalen 3          |
| 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol                                  | Tudalen 4          |
| 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau<br>5-14 |
| 4. Ymgynghori   | Tudalennau 15-17   |
| 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth                            | Tudalennau 18-20   |

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

- |   |                  |
|---|------------------|
| 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 21-23 |
| 7. Opsiynau                                 | Tudalennau 24-25 |
| 8. Costau a manteision                      | Tudalennau 26-30 |
| 9. Aseidiadau Effaith                       | Tudalennau 31-35 |
| 10. Adolygu ar ôl gweithredu                | Tudalen 36       |

## ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

Tudalennau 37-43

## ATODIAD 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tudalennau 44-47

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1. Disgwylir i etholiad cyffredinol Senedd Cymru gael ei gynnal ar 6 Mai 2021 yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgwylir i bandemig y coronafeirws gael effaith ar yr etholiadau hyn, a bydd graddau hynny yn dibynnu ar gyffredinrwydd y coronafeirws cyn yr etholiad ac ar adeg yr etholiad.
2. Ar hyn o bryd, mae is-etholiadau priodol unrhyw swyddi gwag mewn llywodraeth leol a oedd yn codi rhwng 15 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021 wedi cael eu gohirio. Mae Adran 67 o Ddeddf Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn bosibl i ddyddiad is-etholiadau gael ei ohirio i 6 Mai 2020 fan bellaf.
3. Felly mae Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn gwneud darpariaeth i ymateb i'r risgiau posibl i etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth Senedd Cymru ("y Senedd") sy'n deillio o'r pandemig gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio. O ran y Senedd, bydd y darpariaethau yn y Bil ond yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2021 ac ni fydd yn gymwys i unrhyw etholiadau dilynol. Mae'r Bil hefyd yn ymateb i risgiau posibl coronafeirws drwy ei gwneud yn bosibl i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio y tu hwnt i 6 Mai 2020 os bydd angen.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

4. Mae gan Senedd Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.
5. Darparodd Deddf Cymru 2017 y pŵer i'r Senedd ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud ag etholiadau'r Senedd. Hwn fydd etholiad cyntaf y Senedd ers i'r Senedd gael y pŵer hwn.

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

#### Cefndir a Chyd-destun

6. Disgwylir i'r etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd gael ei gynnal ar 6 Mai 2021, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'n aneglur beth fydd y sefyllfa o ran pandemig cyfredol y coronafeirws. Rhaid i is-etholiadau llywodraeth leol a ohiriwyd hefyd gael eu cynnal ar ddyddiad heb fod yn hwyrach na 6 Mai 2020.
7. Yng ngoleuni'r pandemig, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Cynllunio Etholiadau ym mis Mehefin 2020 i ystyried effaith y coronafeirws ar etholiad nesaf y Senedd ac, yn enwedig, yr addasiadau deddfwriaethol yr oedd angen eu gwneud i adlewyrchu'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ac i sicrhau diogelwch a llesiant pawb a oedd yn gysylltiedig â hyn. Trafodwyd adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau<sup>1</sup> gan y Senedd ar 17 Tachwedd 2020.<sup>2</sup>
8. Bwriad cadarn y Llywodraeth yw y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021. Ond mae'n ddoeth sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith os bydd y pandemig yn peri bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd ac i gynnal yr etholiad.
9. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â llywodraethau eraill y DU, wedi cyflwyno ystod o fesurau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac ymateb i'r pandemig sy'n datblygu. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi canllawiau statudol ac anstatudol i ategu'r ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei rhoi ar waith. Mae'r mesurau yn cynnwys rheolau ar gadw pellter cymdeithasol, gwisgo mygydau ac, mewn rhai achosion difrifol, gyfyngiadau ar symudiadau pobl. Gofynnir i'r rhai sydd wedi cael canlyniad coronafeirws positif, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â phobl sydd wedi cael canlyniad positif, i hunanynysu am 10 diwrnod. Mae'r mesurau hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol i gyfleusterau a busnesau megis tafarndai, bwytai a champfeydd gau ac wedi cyfyngu ar weithgarwch hamdden drwy gyfyngu ar fynediad i fannau agored a hawliau tramwy cyhoeddus.
10. Cyfrifoldeb Swyddogion Canlyniadau yw cynnal etholiad o fewn y rheolau ar gyfer cynnal etholiadau a nodir mewn deddfwriaeth. Nodir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau ar gyfer aelodaeth o'r Senedd. O dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006,

---

<sup>1</sup> Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau: <https://llyw.cymru/grwp-cynllunio-etholiadau-adroddiad-medi-2020>

<sup>2</sup> Cofnod o'r ddadl <https://record.assembly.wales/Plenary/6676#A62227>

mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud darpariaethau ar gyfer etholiadau. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Tra bod Gweinidogion Cymru yn gwneud yr is-ddeddfwriaeth, mae gwahaniaeth clir mewn rolau a chyfrifoldebau, a mater i'r Swyddogion Canlyniadau yw cynnal a gweinyddu'r etholiadau.

11. Mae swyddogion Iechyd y Cyhoedd wedi nodi amrywiaeth o unigolion yn gorffennol yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel pe byddent yn dal y coronafeirws. Pan oedd y pandemig ar ei anterth, cynghorwyd y rhai a oedd yn y categori "gwarchod" hwn i leihau eu cysylltiad ag eraill a chynghorwyd y rhai a oedd yn wynebu risg arbennig o uchel i hunanynysu. Er bod y gofyniad i warchod wedi cael ei godi'n ffurfiol, efallai y bydd llawer o unigolion yn parhau i warchod am eu bod yn pryderu am eu diogelwch eu hunain, ac nid oes unrhyw sicrwydd na fydd y gofyniad hwn yn dychwelyd. Mae canllawiau presennol iechyd y cyhoedd yn cynghori aelodau o'r cyhoedd i osgoi dod i gysylltiad ag eraill a chynnal hylendid personol er mwyn lleihau'r risg o ddal y feirws.
12. Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd gan Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal yr etholiad yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys annog y defnydd o bleidleisio drwy'r post a chynllunio ar gyfer mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn gorsafoedd pleidleisio yn ystod diwrnod y pŵl ac wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod y cyfnod hwn yn un eithriadol a bod yn rhaid rhoi pob cyfle i'r etholwyr gymryd rhan yn yr etholiad er gwaethaf amgylchedd heriol y pandemig sy'n mynd rhagddo.
13. Er gwaethaf y camau gweithredu y gall Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol eu cymryd, bydd yna unigolion sy'n cydymffurfio â chyfundrefn iechyd y cyhoedd a fydd yn hunanynysu ar adeg yr etholiad ac na allant fynd i orsaf bleidleisio a phleidleisio yn bersonol. Hefyd, efallai na fydd pleidleiswyr bregus megis y rhai a fu'n gwarchod o'r blaen ac eraill sy'n nerfus ynghylch dod i gysylltiad â phobl, yn fodlon mentro a mynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio ar ddiwrnod y pŵl, yn enwedig os bydd cyfraddau heintio yn codi'n sylweddol yn agos at y diwrnod pleidleisio.
14. Os bydd cyfraddau heintio yn codi, mae risg hefyd mai nifer bach o staff fydd ar gael i gynnal yr etholiad yn llwyddiannus, naill ai am eu bod nhw eu hunain yn cydymffurfio â chyfundrefn iechyd y cyhoedd neu eu bod yn nerfus ynghylch dod i gysylltiad â nifer mawr o bobl mewn gorsafoedd pleidleisio a manau cyfrif. Yn gyffredinol, mae staff mewn gorsafoedd pleidleisio yn tueddu i fod yn hŷn ac yn fwy tebygol o fod yn y categorïau gwarchod neu risg uchel blaenorol ac felly yn llai tebygol neu'n fodlon bod ar gael i gynnal yr etholiad.
15. Etholiad 2021 fydd y tro cyntaf y bydd gan bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor cymwys yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn dilyn ymestyn yr etholfraint yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,

a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddwyr etholiadol ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau bod y pleidleiswyr sy'n pleidleisio am y tro cyntaf yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol. Hefyd, i bleidleiswyr iau hwn fydd y tro cyntaf iddynt bleidleisio, ac felly bydd angen ystyried effaith y pandemig ar eu profiad cyntaf wrth weinyddu'r etholiad yn effeithiol.

16. Felly, gallai effeithiau'r pandemig a chyfradd heintio sy'n codi wrth i ddyddiad y pŵl agosáu arwain at feirniadaeth ynglŷn â'r diffyg cyfreithlondeb yng nghanlyniad yr etholiad. Yn gyntaf, oherwydd y gallai cyfran sylweddol o'r etholwyr gael eu difreinio o bosibl naill ai o ganlyniad i gydymffurfio â chyfundrefn iechyd y cyhoedd neu ddiffyg hyder i fynd i bleidleisio yn bersonol yn y pŵl, gan arwain at nifer bach o bobl yn pleidleisio. Yn ail, gan fod proses lwyddiannus o gynnal etholiad yn dibynnu ar gael nifer mawr o staff i reoli'r gwaith gweinyddu cyffredinol, goruchwylio gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Os bydd staff a fyddai'n gweinyddu'r etholiad eu hunain yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn yr etholiad, neu heb yr hyder i wneud hynny, bydd risg bosibl na fydd y Swyddogion Canlyniadau yn cynnal yr etholiad yn llwyddiannus.
17. Mae amseriad yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau hefyd yn cymhlethu'r trefniadau gan fod disgwyl iddynt gael eu cynnal ar yr un diwrnod â phŵl y Senedd. Roedd disgwyl i'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau gael ei gynnal yn wreiddiol ar 7 Mai 2020, ond cafodd ei ohirio gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf Coronafeirws 2020, a ddarparodd hefyd y gallai is-etholiadau ar gyfer y Senedd a llywodraeth leol gael eu gohirio, pe baent yn codi yn ystod y pandemig. Mae gan yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau etholfraint gulach nag etholiadau eraill y Senedd, sy'n golygu y bydd rhai pleidleiswyr yn gallu pleidleisio mewn un etholiad ond nid y llall. Mae ffiniau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau hefyd yn wahanol i ffiniau etholaethol a rhanbarthol etholiad y Senedd, a fydd yn cymhlethu pethau'n fwy. Gan mai mater i Lywodraeth y DU yw'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

## **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

18. Diben Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yw gwneud darpariaeth i ymateb i'r risgiau posibl i etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd sy'n deillio o bandemig y coronafeirws gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio, neu, mewn cyfyngder, y gellir gohirio'r etholiad os bydd angen. Prif amcan Llywodraeth Cymru yw sicrhau y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021 yn ôl y disgwyl, a bod yr addasiadau a wneir gan y Bil yn fesurau wrth gefn doeth er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Canlyniadau gynnal yr etholiad yng nghyd-destun y pandemig sy'n datblygu. Bydd y Bil ond yn gymwys ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol



y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2021 ac ni fydd yn gymwys i unrhyw etholiadau dilynol.

19. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n: -

- a. darparu ar gyfer cyfnod diddymu byrrach ar gyfer y Senedd cyn diwrnod y pŵl;
- b. diogelu'r cyfnod o amser y mae'n rhaid cynnal cyfarfod cyntaf y Senedd newydd a etholwyd ar ôl etholiad 2021 ynddo;
- c. darparu pŵer i ohirio'r etholiad o 6 Mai 2021 am reswm sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws, ac am gyfnod o hyd at 6 mis;
- d. sicrhau bod pŵer presennol y Llywydd i amrywio dyddiad etholiad 2021 yn parhau i fod yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol os caiff dyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad ei ohirio;
- e. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag etholaethol sy'n codi ar ôl 6 Mai 2021 i gael ei gynnal ar ddyddiad a bennir gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
- f. galluogi is-etholiad i lenwi swydd wag am aelodaeth o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned i gael ei ohirio tan ddyddiad nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021;
- g. gwneud addasiadau canlyniadol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 20077 (fel y'i diwygiwyd); a
- h. rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn nhw at ddibenion gweithredu'r Ddeddf yn llawn, neu mewn cysylltiad â hynny.

20. Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn rhoi sylwebaeth ar ddiben y darpariaethau hyn a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael. Nodir sylwebaeth bellach ar bob un o ddarpariaethau'r Bil yn fanwl yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn Atodiad A.

### **Diddymu'r Senedd gyfredol**

21. Y sefyllfa arferol cyn etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd yw bod y Senedd yn cael ei diddymu ar ddechrau'r "isafswm cyfnod" sy'n dod i ben gyda diwrnod y pŵl yn yr etholiad (adran 3(2)(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yr "isafswm cyfnod" yw 21 diwrnod, heb gynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, diwrnod sy'n ŵyl y banc ac yn y blaen (erthygl 148 a rheol 2 o Atodlen 5 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007).

22. Wrth ddiddymu'r Senedd, mae Aelodau'r Senedd yn peidio â dal swydd yn rhinwedd adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Effaith hyn yw na

fydd y Senedd, yn ystod y cyfnod diddymu hwn, yn eistedd i gynnull, trafod na phasio deddfwriaeth. Fodd bynnag, gall cyffredinrwydd pandemig y coronafeirws yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol arferol nesaf olygu bod cynnydd mewn heintiadau y byddai angen ymateb deddfwriaethol iddo.

23. Felly mae'r Bil yn nodi y bydd y dyddiad diddymu 7 diwrnod calendr cyn diwrnod y pôl, sef 29 Ebrill os bydd y pôl ar gyfer yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai fel y trefnwyd. Diben hyn yw darparu dull o alluogi'r Senedd gyfredol i ymateb, os bydd angen gwneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn arwain at yr etholiad. Mae hefyd yn golygu bod y Senedd yn eistedd ac yn gallu pennu dyddiad ar gyfer y pôl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol os bydd angen gohirio'r etholiad am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws yn y cyfnod hyd at 7 diwrnod calendr cyn diwrnod y pôl (gweler paragraffau 26 i 31 isod).

### **Dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2021**

24. Nododd trafodaethau â'r Grŵp Cynllunio Etholiadau risg y gall y camau lliniaru a roddwyd ar waith i leihau lledaeniad y coronafeirws effeithio ar hyd yr amser y mae'n ei gymryd i gyfrif y pleidleisiau ac i ethol pob Aelod. Gall hyn fod o ganlyniad i effaith y mesurau cadw pellter ar yr amser y mae'n ei gymryd i gyfrif y pleidleisiau a'r ailgyfrif posibl, neu os bydd lefelau uchel o salwch ymhlith yr ymgeiswyr, y Swyddogion Canlyniadau neu staff y gorsafoedd pleidleisio.
25. Y sefyllfa bresennol yn dilyn etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd, sy'n dod i rym o'r pôl cyntaf mewn etholiad o'r fath a gynhelir ar ôl 5 Ebrill 2021, yw bod y Senedd yn gorfod cyfarfod o fewn 14 diwrnod gan ddechrau yn union ar ôl diwrnod y pôl (adran 3(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan adran 36(1) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020). Wrth gyfrifo'r cyfnod hwn, caiff diwrnod sy'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, gŵyl y banc ac ati ei ddiystyru (adran 3(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Felly, ni fyddai angen i gyfarfod cyntaf y Senedd fod yn hwyrach na 26 Mai.
26. Mae'r Bil yn nodi bod y Senedd yn gorfod cyfarfod o fewn y cyfnod o 21 diwrnod calendr yn dechrau yn union ar ôl diwrnod yr etholiad. Os bydd yr etholiad yn mynd rhagddo fel y trefnwyd ar 6 Mai, bydd hyn yn ychwanegu un diwrnod calendr at y cyfnod o amser y mae'n rhaid i'r Senedd gyfarfod ynddo o gymharu â'r sefyllfa arferol a nodir ym mharagraff 25 uchod. Diben yr estyniad hwn yw rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gohiriad posibl wrth gyfrif pleidleisiau, cadarnhau canlyniadau ac ethol Aelodau; tybiaeth gynllunio Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau, yw y gallai'r broses o gyfrif pleidleisiau gael ei gohirio am hyd at 24 awr. Nid yw estyniad hirach yn ddymunol, gan fod gofyniad o dan adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i enwebu Prif Weinidog o fewn y cyfnod o 28 diwrnod calendr o ddyddiad y pôl ar gyfer yr etholiad. Felly, rhaid i'r enwebiad gael ei wneud erbyn 2 Mehefin fan bellaf (gan dybio y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021). Drwy

nodi bod yn rhaid i'r Senedd gyfarfod erbyn 27 Mai fan bellaf, bydd yn galluog i'r materion ffurfiol angenrheidiol gael eu cyflawni ac i'r enwebiad ar gyfer y Prif Weinidog gael ei wneud erbyn y dyddiad hwn.

### **Pŵer i ohirio etholiad 2021 am hyd at 6 mis**

27. Er mai bwriad cadarn Llywodraeth Cymru yw y dylai'r etholiad cyffredinol arferol nesaf gael ei gynnal fel y bwriadwyd ar 6 Mai, mae'n ddoeth sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith ar gyfer senario lle na ellir cynnal yr etholiad am resymau iechyd y cyhoedd.
28. O dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan y Llywydd y pŵer i amrywio dyddiad y pŵl ar gyfer etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd, a gall gynnal yr etholiad yn gynt neu ohirio'r dyddiad am hyd at un mis o 6 Mai 2021. Os bydd y pandemig yn gwaethygu, efallai na fydd gohirio am fis yn ddigon o amser i alluogi i'r cyfraddau ddisgyn eto i lefel lle y gellir cynnal etholiad yn ddiogel, ac felly mae'r pŵer cyfredol yn anaddas at y dibenion hyn.
29. Felly mae'r Bil yn cynnig amserlen hwy a mwy hyblyg ar gyfer gohirio, yn amodol ar archwilio a chlориannu'n briodol, er mwyn i ddyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad gael ei ohirio am hyd at 6 mis o 6 Mai 2021. Y cynnig yw mai dim ond am reswm yn ymwneud â'r coronafeirws y gellir defnyddio'r pŵer hwn i ohirio dyddiad yr etholiad.
30. Mae'r Bil yn cynnig dau bŵer, y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith; -
  - a. Yn gyntaf, pŵer i'r Prif Weinidog gynnig i'r Llywydd y dylid gohirio'r pŵl ar gyfer etholiad cyffredinol arferol 2021 am reswm yn ymwneud â'r coronafeirws os bydd y Prif Weinidog yn ystyried bod angen gwneud hynny neu ei bod yn briodol gwneud hynny.
  - b. Yn ail, pŵer i'r Llywydd, yn dilyn cynnig gan y Prif Weinidog, ohirio diwrnod y pŵl a phennu dyddiad diweddarach ar gyfer cynnal y pŵl ar gyfer yr etholiad os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r dyddiad diweddarach drwy benderfyniad a wneir gan fwyafrif o ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd.
31. Yn hollbwysig, y Llywydd sydd â'r disgrisiwn i gyflwyno cynnig gerbron y Senedd, fel deiliad swydd diduedd yn wleidyddol sy'n llywyddu dros y Senedd, ac mae gohirio yn dibynnu ar gytundeb gan uwchfwyafrif o'r Senedd ei hun. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Prif Weinidog yw cynnig gohirio i adlewyrchu cyfrifoldebau polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru am iechyd y cyhoedd ac etholiadau. Ni fyddai'n briodol i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywydd weithredu'r cais o gofio'r pwerau llawer mwy cyfyngedig a'r adnoddau sydd ar gael i'r Llywydd. Rhennir y cyfrifoldebau mewn ffordd debyg yn Rheol Sefydlog y Senedd 12.3,
32. Er mwyn darparu cam diogelu arall, mae'r Bil hefyd yn cynnig rôl ar gyfer y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â gohirio. Os bydd y Llywydd neu'r Prif Weinidog yn gofyn, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi cyngor iddynt ar y

mater. Diben y ddarpariaeth hon yw galluogi'r Llywydd a'r Prif Weinidog i geisio barn a/neu wybodaeth berthnasol am unrhyw gynnis i ohirio a'r dyddiad newydd i'w bennu ar gyfer y pŵl gan y corff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwyllo etholiadau.

### **Pŵer pellach i'r Llywydd amrywio dyddiad etholiad 2021**

33. Fel y nodwyd ym mharagraff 28, o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan y Llywydd y pŵer i amrywio dyddiad y pŵl ar gyfer etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn galluogi'r Llywydd i amrywio dyddiad y pŵl a chynnis dyddiad o hyd at fis cyn neu fis ar ôl 6 Mai 2021.
34. Er bod y Bil yn cynnis pŵer i ohirio'r pŵl am hyd at 6 mis am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws, mae pŵer presennol y Llywydd i amrywio dyddiad y pŵl yn gyfyngedig i amrywio'r dyddiad am hyd at fis cyn neu ar ôl 6 Mai 2021. Felly mae bwllch o bosibl yn y gallu i amrywio dyddiad y pŵl am resymau heblaw'r rhai sy'n ymwneud â'r coronafeirws. Pe bai'r pŵl yn cael ei ohirio am fwy nag un mis am reswm yn ymwneud â'r coronafeirws a bod rheswm arall yn codi a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddyddiad y pŵl gael ei newid, ni fyddai pŵer y Llywydd yn adran 4 o Ddeddf 2006 ar gael.
35. Felly mae'r Bil yn cynnis pŵer i'r Llywydd a fyddai'n gweithredu mewn ffordd sy'n cyfateb i bŵer presennol y Llywydd yn adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn yr ystyr y gall y Llywydd amrywio dyddiad y pŵl ymhellach, a ohiriwyd o dan adran 5 o'r Bil, am ddim mwy na mis cyn neu fis ar ôl y dyddiad a bennwyd ar gyfer pŵl. Ni ddylid arfer y pŵer hwn er mwyn pennu dyddiad sy'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021 yn unol â'r amserlen gyffredinol y bwriadwyd i'r Bil weithredu oddi mewn iddi.
36. Nid yw'r Bil yn diffinio'r rhesymau pam fyddai'r Llywydd yn arfer y pŵer arfaethedig hwn, yn gyson â'r sefyllfa gyfredol yn adran 4 o Ddeddf 2006.

### **Swyddi gwag etholaethol**

37. O dan adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Llywydd bennu'r dyddiad ar gyfer y pŵl ar gyfer is-etholiad i lenwi swydd wag mewn etholiad etholaethol. Rhaid i'r dyddiad a bennir fod o fewn tri mis i ddyddiad y swydd wag sy'n codi (adran 10(5) o Ddeddf 2006). Os na ddaw'r swydd wag i sylw'r Llywydd o fewn mis i gyhoeddi'r swydd wag, rhaid i'r dyddiad a bennir wedyn fod o fewn tri mis i'r dyddiad y daeth y swydd wag i sylw'r Llywydd (adran 10(6) o Ddeddf 2006).
38. Mae'r Bil yn cynnis y dylai'r cyfnod o amser ar gyfer pennu'r dyddiad ar gyfer is-etholiad i lenwi swydd wag mewn etholiad etholaethol sy'n codi ar ôl 6 Mai gael ei addasu i ymateb i bandemig y coronafeirws sy'n datblygu. Os bydd risg i iechyd y cyhoedd, mae'r Bil yn cynnis y dylai'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, fod yn gallu pennu dyddiad ar gyfer yr is-etholiad y mae'n rhaid iddo gael ei gynnal ar neu cyn 5 Tachwedd 2021,

ond a all fod ar ddyddiad sydd y tu allan i'r cyfnod a nodwyd o dan adran 10(5) neu (6) o Ddeddf 2006.

### **Swyddi gwag mewn Llywodraeth Leol**

39. Mae'r Bil yn cynnig pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i ohirio is-etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru sydd i'w cynnal rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021. Nid yw'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer gohirio is-etholiadau yn amhendant ac ni fyddant yn cael effaith ar yr etholiadau cyffredin ar gyfer llywodraeth leol y disgwylir iddynt gael eu cynnal ym mis Mai 2022. Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys i bob haen o lywodraeth leol yng Nghymru ac maent yn gymwys i swyddi gwag achlysurol mewn prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio pe bai sefyllfa iechyd y cyhoedd yn codi lle yr ystyrir y byddai cynnal pŵl yn peri'r fath heriau sylweddol fel na fyddai camau lliniaru, ym marn Gweinidogion Cymru, yn arwain at gynnal is-etholiadau llywodraeth leol yn ddiogel ac na fyddai cynnal pŵl er budd y cyhoedd. Mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, dull sy'n gyson â'r hyn a nodir yn adran 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020 sy'n galluogi i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio tan 6 Mai 2021. Daw'r ddarpariaeth i ben ar 5 Tachwedd 2021 a phryd hynny ni all unrhyw is-etholiadau llywodraeth leol gael eu cynnal yng Nghymru yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n nodi'r weithdrefn lle mae swyddi gwag achlysurol mewn llywodraeth leol yn codi o fewn 6 mis i etholiadau cyffredin llywodraeth leol.

### **Addasiadau canlyniadol**

40. Mae'r Bil yn cynnig addasiadau canlyniadol i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd) ("*the Conduct Order*") i adlewyrchu'r newidiadau a gynigiwyd yn y Bil i gwtogi'r cyfnod diddymu ar gyfer y Senedd cyn diwrnod y pŵl a drefnwyd ar gyfer 6 Mai; ac i weithredu argymhellion a wnaed gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau am hyblygrwydd mewn rhai meysydd wrth gynnal yr etholiad mewn ymateb i ofynion pandemig y coronafeirws.
41. Mewn perthynas â chwtogi'r cyfnod diddymu, mae'r Bil yn cynnig addasiad i ddatgyplu'r amser y daw rhywun yn "ymgeisydd" yn yr etholiad oddi wrth y cyfnod diddymu. Mae'r Bil yn cynnig y daw rhywun yn "ymgeisydd" 21 diwrnod cyn 6 Mai (a gyfrifir drwy anwybyddu diwrnod sy'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl y banc ac ati) yn hytrach nag ar y dyddiad diddymu, a fyddai 7 diwrnod cyn diwrnod y pŵl fel y cynigiwyd yn y Bil. Effaith hyn yw y daw rhywun yn ymgeisydd yn yr etholiad nesaf ar yr un pryd ag y byddent wedi dod yn ymgeisydd pe na bai'r Bil wedi cynnig cwtogi'r cyfnod diddymu.
42. Mae goblygiadau i'r ddarpariaeth hon o ran y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer gwariant ymgyrchu i'r etholiad o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Bydd y cyfnod rheoleiddiedig yn parhau i

fod yn gysylltiedig â 6 Mai 2021 a bydd yn dechrau 4 mis cyn y dyddiad hwnnw ni waeth a ohirir dyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol yn unol â'r darpariaethau ar gyfer gohirio a gynigiwyd yn y Bil.

43. Mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Cynllunio Etholiadau, mae'r Bil yn cynnig cyflwyno hyblygrwydd ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy os bydd rhywun yn teimlo nad oes disgwyl iddo yn rhesymol bleidleisio yn bersonol am fod angen iddo gydymffurfio â deddfiad yn ymwneud â'r coronafeirws neu am ei fod yn dilyn canllawiau mewn perthynas â'r coronafeirws a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r Bil yn cynnig na fydd angen tystiolaeth feddygol ar gyfer cais am bleidlais frys drwy ddirprwy mewn amgylchiadau o'r fath. Diben y ddarpariaeth yw galluogi cyfranogiad pleidleiswyr yn yr etholiad os na all pleidleisiwr, yn y cyfnod cyn y bleidlais, bleidleisio'n bersonol ar ddiwrnod y pŵl am reswm yn ymwneud â'r coronafeirws. Mae hyn yn gyson â darpariaeth a wneir ar gyfer etholiadau ledled y DU.
44. Argymhellodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau hefyd y dylid ymchwilio i weld, mewn rhai amgylchiadau, a fyddai'n bosibl cynyddu sawl gwaith y gall rhywun weithredu ar ran pobl eraill fel dirprwy, er enghraifft, os bydd angen i aelwyd lle mae llawer o bleidleiswyr hunanynysu. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn oherwydd, ar ôl ymchwilio a myfyrio ymhellach, cred Llywodraeth Cymru y gallai trefniadau o'r fath gael eu camddefnyddio a byddai pleidleiswyr bregus yn wynebu risg o gael eu difreinio.
45. Mae'r Bil yn cynnig cynnwys hyblygrwydd yn y broses o gyflwyno papurau enwebu a chydsyniad ymgeiswyr i enwebiad, fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau. Mae cyflwyno papurau enwebu a chydsyniad i enwebiadau yn broses ffisegol yn hytrach nag un rithwir. Yr addasiadau a gynigir yw sicrhau bod mwy o amser bob dydd i gyflwyno papurau enwebu (9.00am i 5.00pm yn lle 10.00am i 4.00pm). Hefyd, cynigir y gall rhywun a enwebwyd gan yr ymgeisydd at y diben hwnnw gyflwyno papurau enwebu ar ran yr ymgeisydd drwy roi enw a chyfeiriad yr unigolyn i'r swyddog canlyniadau yn ysgrifenedig neu yn electronig cyn neu ar yr adeg y cyflwynir y papur enwebu.
46. Mae'r addasiad terfynol a gynigir yn y Bil yn ymwneud â chydsyniad yr ymgeiswyr i enwebiad. Nid oes ffurf ragnodedig ar gyfer y cydsyniad i enwebiad, ar yr amod ei fod yn ysgrifenedig, wedi ei gyflwyno i'r swyddog canlyniadau o fewn yr amser penodedig a bod rhywun yn dyst i hynny. Os bydd ymgeisydd dramor, gellir ei gyflwyno drwy ffacs neu ddull tebyg arall - ac, yn nodedig, heb yr angen i rywun fod yn dyst i hynny. Ar gyfer yr etholiad y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2021, mae'r Bil yn cynnig addasu'r rheolau cyfredol i alluogi ymgeiswyr i gyflwyno eu cydsyniad priodol i enwebiad yn yr amser a bennwyd ar gyfer cyflwyno papurau enwebu naill ai'n ysgrifenedig yn y lle ar gyfer cyflwyno'r papurau hynny

neu'n electronig i gyfeiriad electronig at y diben hwnnw. Cynigir na fydd gofyniad i gydsyniad ymgeisydd i enwebiad gael ei dystio gan dyst.

### **Pŵer gwneud rheoliadau**

47. Er bod y Bil yn ceisio ymateb i effeithiau pandemig y coronafeirws, mae cymhlethdod a natur esblygol y sefyllfa yn golygu na fydd pob un o'r effeithiau posibl ar y modd y cynhelir yr etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd wedi cael eu rhagweld ac na fydd darpariaeth ar eu cyfer yn narpariaethau'r Bil. Yn yr un modd, efallai y bydd angen ymdrin â chanlyniadau ymarferol canslo neu ohirio'r etholiad, a bydd angen cael deddfwriaeth sy'n ymdrin â materion fel ernes ymgeiswyr, pleidleisiau a gaiff eu dinistrio yn y post ac yn y blaen, y gellir ymdrin â nhw drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.
48. Felly, mae'r Bil yn cynnig bod pŵer gwneud rheoliadau yn cael ei roi i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn nhw at ddibenion gweithredu'r Ddeddf yn llawn, neu mewn cysylltiad â hynny. Mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud, dull sy'n gyson â'r hyn a geir yn adran 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020 sy'n galluogi i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio tan 6 Mai 2021. Mae'r Bil yn cynnig bod y pŵer yn destun proses graffu gan y Senedd drwy'r weithdrefn negyddol, gan gydbwyso'r gwaith craffu â'r angen i wneud unrhyw reoliadau ar sail frys i ymateb i hinsawdd y coronafeirws sy'n newid byth a beunydd.

## 4. Ymgynghori

49. Ym mis Mehefin 2020, penododd y Prif Weinidog grŵp dethol o randdeiliaid i ffurfio'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, a wahoddodd gynrychiolwyr i rannu eu barn ar y graddau yr oedd addasiadau yn angenrheidiol mewn perthynas â chynnal a gweinyddu'r etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd yr oedd disgwyl iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2020, er mwyn ymdopi ag effeithiau pandemig y coronafeirws.

50. Nododd y Grŵp y nod canlynol yn ei gylch gorchwyl:

*Y nod cyffredinol yw sicrhau'r cyfranogiad democrataidd mwyaf posibl tra'n diogelu iechyd y cyhoedd hefyd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, yn ddiogel a gyda hyder:*

- *y gall ymgeiswyr ac ymgyrchwyr gyflwyno eu hachos;*
- *y gall pleidleiswyr gyfranogi;*
- *y gall gweinyddwyr gynnal y pŵl; ac*
- *y gall y cyhoedd ymddiried yn y canlyniad."*

51. Roedd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhanddeiliaid canlynol:

- a. Y Comisiwn Etholiadol
- b. Swyddogion Canlyniadau
- c. Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- d. Pleidiau gwleidyddol
- e. Comisiwn y Senedd
- f. Llywodraeth y DU
- g. Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru
- h. Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

52. Cyfarfu'r Grŵp bum gwaith gan nodi nifer o argymhellion yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2020, er na ddaeth y Grŵp i gonsensws ar bob un o'r argymhellion hyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn ar wefan Llywodraeth Cymru - <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adroddiad-y-grwp-cynllunio-etholiadau>.

53. Er mai materion ymarferol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol oedd nifer o'r argymhellion, mae angen atebion deddfwriaethol ar gyfer rhai o'r argymhellion y Grŵp. O ran yr argymhellion hyn, roedd rhai lle daeth y Grŵp i gonsensws, a rhai lle na ddigwyddodd hynny.

54. O ran meysydd consensws, cytunodd y Grŵp ar y canlynol:

1. dylid parhau i anelu at gynnal etholiad y Senedd ar 6 Mai fel y cynlluniwyd;
2. dylid caniatáu mwy o hyblygrwydd ynghylch pwy sydd â hawl i gyflwyno papurau enwebu a dylid caniatáu i bapurau gael eu cyflwyno'n electronig; a



3. dylid caniatáu mwy o hyblygrwydd ynghylch pleidleisio drwy ddirprwy;

55. Ni ddaeth y Grŵp i gonsensws ar yr argymhellion canlynol:

1. pŵer i'r Llywydd, fel mesur wrth gefn, i ohirio dyddiad yr etholiad o fwy na mis, pe bai cyngor iechyd y cyhoedd yn nodi na fyddai'n ddiogel cynnal y pŵl;
2. addasu'r gofyniad i'r cyfarfod Llawn cyntaf gael ei gynnal 14 diwrnod ar ôl y pŵl i 14 diwrnod ar ôl y canlyniad (i adlewyrchu cyfnod cyfrif hwy siŵr o fod); a
3. ymestyn oriau pleidleisio – naill ai oriau hwy ar 6 Mai neu dros ddiwrnodau ychwanegol.

56. Nodir pob un o'r materion hyn mewn deddfwriaeth etholiadol gyfredol a byddai angen deddfwriaeth sylfaenol mewn rhai achosion ac is-ddeddfwriaeth mewn achosion eraill i wneud newid i'r trefniadau presennol. Y dull a nodir yn y Bil yw cynnwys ynddo yr holl gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai. Bydd darpariaethau'r Bil ond yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol nesaf ac nid i unrhyw etholiad dilynol ac fe'i hystyriwyd yn briodol gwneud addasiadau mewn un cyfrwng deddfwriaethol i'r graddau bod hynny'n bosibl.

57. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dau o'r tri maes a restrir uchod (ym mharagraff 56(1) a (2)) lle na ddaeth y Grŵp i gonsensws wedi'u cynnwys yn y Bil. Nid dymuniad Llywodraeth Cymru yw newid dyddiad y pŵl, a bwriad cadarn y Llywodraeth yw y dylai'r etholiad fynd rhagddo ar 6 Mai 2020, ond mae'n ddoeth sicrhau bod opsiynau ychwanegol ar gael, rhag ofn y bydd y pandemig yn arwain at sefyllfa lle na ellir cynnal yr etholiad.

58. O ran ymestyn yr oriau pleidleisio, cydnabu Llywodraeth Cymru fod y cyfnod hwn yn un eithriadol a bod yn rhaid rhoi pob cyfle i'r etholwyr gymryd rhan yn yr etholiad, er gwaethaf amgylchedd heriol y pandemig sy'n mynd rhagddo. Er nad oes unrhyw ddarpariaethau wedi'u cynnwys yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio i'r posibilrwydd o bleidleisio'n gynnar cyn y pŵl a chynnal trafodaeth â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwyso hyn at etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a gynhelir ar yr un diwrnod ag etholiad y Senedd.

59. Ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddrafft y Bil, oherwydd y cyfyngiadau amser o sicrhau bod y ddeddfwriaeth sylfaenol

angenrheidiol ar waith cyn diddymu'r Senedd. Bydd y Bil ond yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 6 Mai 2021. Ni fydd yn gymwys i etholiadau cyffredinol arferol dilynol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol, y byddai galw arni i weithredu'r mesurau a amlinellir yn y Bil, a gyda swyddogion Comisiwn y Senedd. Mae eu sylwadau wedi helpu i lunio cynnwys y Bil.

## **5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

60. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5 yn cyfeirio at hyn.
61. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5: Crynodeb o'r bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws).**

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
8	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol	<p>Mae darpariaeth bresennol o dan adran 67 o Ddeddf Coronafeirws 2020 i alluogi i is-etholiadau i lenwi swyddi gwag achlysurol sy'n codi mewn awdurdod lleol gael eu gohirio tan 6 Mai 2021; bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio pe bai sefyllfa iechyd y cyhoedd yn codi lle yr ystyrid y byddai cynnal pŵl yn peri'r fath heriau sylweddol fel na fyddai camau lliniaru yn arwain at gynnal pŵl yn ddiogel ym marn Gweinidogion Cymru. Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i ohirio etholiadau y tu hwnt i 6 Mai 2021. Darperir y pŵer yn y Bil hwn i alluogi gohirio etholiadau pe bai'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn golygu yr ystyrid na fyddai'n ddiogel cynnal is-etholiad ar ôl 6 Mai 2021. Ni fyddai modd defnyddio'r pŵer hwn i bennu dyddiad ar gyfer pŵl mewn is-etholiad a gynhelir ar ôl 5 Tachwedd</p>	Gweithdrefn negyddol	I ymateb i'r pandemig sy'n datblygu i alluogi i ddyddiad pŵl mewn is-etholiad gael ei ohirio pe bai gwneud hynny yn angenrheidiol am resymau iechyd y cyhoedd er mwyn cynnal y pŵl yn ddiogel.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			2021. Mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, dull sy'n gyson â'r hyn a nodir yn adran 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020.		
12	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol	Er bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r etholiad cyffredinol a all godi o ganlyniad i'r pandemig, gall y sefyllfa sy'n symud yn gyflym arwain at broblemau na fyddai neb wedi'u rhagweld ond sydd angen deddfwriaeth i'w datrys. Gall gohirio'r pŵl arwain at ganlyniadau ymarferol, megis ernes ymgeiswyr a phleidleisiau a gaiff eu dinistrio yn y post, ac is-ddeddfwriaeth fyddai orau i ymdrin â hynny.	Gweithdrefn negyddol	Byddai'r pwerau hyn ond yn ymwneud â diben y Bil neu â gweithredu'r Bil yn llawn  Bydd angen cymryd camau cyflym mewn perthynas â thestun y Bil.

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Cwblhawyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

#### Tabl A

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o gostau a buddiannau'r Bil. Lluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix). Yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £1000 agosaf. Defnyddir y flwyddyn ariannol gyfredol (2020-21) fel y flwyddyn sail yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Disgwylir yr eir i'r holl gostau yn y dadansoddiad yn 2021-22 felly rhaid eu disgowntio i'w dangos yn nhermau gwerth cyfredol. O ganlyniad i'r disgowntio, mae'r ffigur gwerth presennol yn is na'r ffigur na ddisgowntiwyd.

<b>BIL ETHOLIADAU CYMRU (CORONAFEIRWS)</b>		
<b>Opsiwn a ffefrir: Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn y gyfraith etholiadol, gan gynnwys estyniad i allu'r Llywydd i symud dyddiad y pól.</b>		
<b>Cam:</b> Introduction	<b>Cyfnod arfarnu:</b>	<b>Blwyddyn sail brisiau</b>
<b>Cyfanswm Cost</b> Cyfanswm: £9,938,000 <b>Gwerth presennol:</b> £9,602,000	<b>Cyfanswm y Manteision</b> Cyfanswm: £0 <b>Gwerth presennol:</b> £0	<b>Gwerth Net Presennol (GNP):</b> £-9,602,000

#### Cost weinyddol

<b>Costau:</b> Gohirio'r pól fydd yn arwain at y gost weinyddol fwyaf arwyddocaol a'r Awdurdodau Lleol fyddai'n gorfod talu'r rhan fwyaf o hyn. Caiff y costau hyn eu hawlio'n ôl o Lywodraeth Cymru ac eid iddynt yn 2021/2022. Cost amcangyfrifedig etholiad 2021 (gan dybio na fydd newid yn y dyddiad) yw £11,840,000. Byddai pól gohiriedig yn golygu y byddai etholiad 2021 yn costio £21,778,000. Felly gallai darpariaethau'r Bil olygu cost ychwanegol o £9,938,000.			
<b>Trosiannol:</b> £9,938,000	<b>Cylchol:</b> £0	<b>Cyfanswm:</b> £9,938,000	<b>PV</b>

**Arbedion cost:** Mae'n annhebygol y bydd unrhyw arbedion cost o unrhyw arwyddocâd yn gysylltiedig â'r Bil. Bydd y rhan fwyaf o'r costau, megis cynhyrchu papurau pleidleisio, eisoes wedi digwydd ymlaen llaw a chyn unrhyw benderfyniad i ohirio. Er y gallai fod arbedion mewn costau staff ar gyfer diwrnod y pól, byddai'r swm hwn fel llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â'r pól, ond yn cael ei ohirio tan ddyddiad newydd y pól pan fyddai angen y staff unwaith eto.

Trosiannol: £0	Cylchol: £0	Cyfanswm: £0	PV: £0
<b>Cost weinyddol net: £9,938,000</b>			

### Costau cydymffurfio

Trosiannol: £0	Cylchol: £0	Cyfanswm: £0	PV: £0

### Costau eraill

Dd/G			
Trosiannol: £0	Cylchol: £0	Cyfanswm: £0	PV: £0

### Costau heb eu meintioli a cholledion

Mae costau ychwanegol posibl i Gomisiwn y Senedd am weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â gohirio'r etholiad. Yn yr un modd, gall y Comisiwn Etholiadol fynd i gostau ychwanegol drwy weithio gydag Awdurdodau Lleol a darparu canllawiau, adnoddau a gwybodaeth i bleidleiswyr. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar y cam hwn.

## Manteision

*Bydd y darpariaethau yn y Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd ynghylch opsiynau i ymateb i'r pandemig drwy ddarparu cynllun wrth gefn i'r etholiad gael ei symud yn yr achos gwaethaf a'r diweddariadau i reolau ynghylch pleidleisio drwy ddirprwy, enwebiadau a gweithdrefnau yn y Senedd. Mae'r mesurau hyn hefyd yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws drwy'r hyblygrwydd cynyddol mewn pleidleisio drwy'r post ac enwebiadau. Mae cyfnod diddymu byrrach hefyd yn caniatáu i'r Senedd graffu ar ddeddfwriaeth am gyfnod hwy. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd fod yn hyderus na fydd y pandemig yn eu hatal rhag pleidleisio.*

**Cyfanswm:** £0

**PV:** £0

## Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

*Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr effaith a gaiff y pandemig ar gynnal yr etholiad yn llwyddiannus. Bwriedir i'r darpariaethau a nodir yma fod yn ymateb i'r achos gwaethaf lle mae lefelau heintio yn ddigon uchel i beri risg i'r ganran sy'n pleidleisio a nifer y staff. Fel y cyfryw, mae'n anodd rhagweld yr effaith y gallai'r pandemig ei chael ar y ganran sy'n pleidleisio a'r defnydd o opsiynau pleidleisio absennol, gan y byddai'r gyfradd heintio ar y pryd yn effeithio ar barodrwydd a gallu pleidleiswyr i gymryd rhan.*



## 7. Opsiynau

62. Amcan y polisi yw ymateb i'r risg bosibl i etholiad y Senedd yn 2021 sy'n deillio o'r pandemig, gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio. Mae'r rhesymeg dros wneud hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol.

63. Ystyriwyd dau opsiwn:

**Opsiwn 1:** Busnes fel arfer – Caniatáu i'r etholiad fynd rhagddo fel arfer heb newidiadau i'r deddfwriaeth etholiadol.

**Opsiwn 2:** Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol fydd yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd mewn cyfraith etholiadol, gan gynnwys estyniad i allu'r Llywydd i symud dyddiad y pŵl.

### **Opsiwn 1: Busnes fel arfer**

64. Disgwylir i etholiad y Senedd gael ei gynnal ar 6 Mai 2021. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd y pandemig wedi datblygu ar yr adeg hon ac a fydd cyfraddau heintio wedi cynyddu neu leihau. Mae lefelau uwch o haint yn creu risgiau ychwanegol i'r etholiad. Efallai na fydd pleidleiswyr yn gallu neu'n barod i gymryd rhan yn y pŵl oherwydd salwch, neu ofyniad i hunanynysu, neu'n anfodlon mynd i orsaf bleidleisio lle y gallent ddod i gysylltiad â'r feirws. Gallai lefelau uchel o salwch hefyd leihau nifer y staff sydd ar gael i weinyddu'r pŵl, ac felly gallai'r etholiad ei hun wynebu risg sylweddol o fethu.

65. Mae gweinyddwyr etholiadol yn cyflwyno nifer o gamau lliniaru i leihau'r risgiau hyn, gan gynnwys cyflwyno mesurau cadw pellter a hylendid mewn gorsafoddedd pleidleisio ac wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif. Gan na fydd llawer o bleidleiswyr o bosib yn gallu neu'n barod i fynd i orsafoddedd pleidleisio, trefnir gweithgareddau hyrwyddo i annog pleidleiswyr i ddefnyddio opsiynau pleidleisio absennol, megis pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy. Mae'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy ddulliau anneddfwriaethol ac ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i reolau etholiadol drwy newidiadau deddfwriaethol. Felly byddai'n rhaid i ddyddiad y pŵl a newidiadau eraill a gynhwysir yn y Bil ddilyn y gyfraith bresennol ac ni ellid eu newid.

66. Mae pob un o'r camau anneddfwriaethol yn bodloni amcan polisi y Bil: hwyluso'r gwaith o gynnal yr etholiad yn ddiogel. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o hyblygrwydd ac nid oes cynllun wrth gefn ar gyfer achos gwaethaf. Byddai'n rhaid dilyn y gyfraith etholiadol o hyd, hyd yn oed pe bai cyfradd heintio gritigol ymhlith y boblogaeth. Byddai'r Senedd yn cael ei diddymu yn rhy gynnar cyn yr etholiad er mwyn galluogi'r Aelodau i oruchwylio'r ymateb i'r pandemig. Am y rheswm hwn, nid yw'r opsiwn hwn yn bodloni'r amcan polisi, gan nad yw'n darparu cynllun wrth gefn ar gyfer yr achos gwaethaf.

**Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd mewn cyfraith etholiadol, gan gynnwys estyniad i allu'r Llywydd i symud dyddiad y pŵl.**

67. Mae'r rheolau ynghylch rheoli etholiadau'r Senedd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth etholiadol, megis Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gall gwneud newidiadau i'r rheolau hyn olygu bod angen deddfwriaeth sylfaenol a, thrwy gonfensiwn, rhaid i unrhyw newidiadau o'r fath fod ar waith 6 mis cyn etholiad er mwyn caniatáu digon o amser i drefniadau gael eu gwneud.

68. Hyd yma, mae trywydd y pandemig wedi bod yn anodd ei ragweld ac mae'n anodd gwybod beth fydd statws y pandemig pan gynhelir yr etholiad ar 6 Mai 2021. Nid yw'r diffyg hyblygrwydd sydd ar gael ar gyfer gwneud newidiadau i reolau etholiadol yn briodol ar gyfer ymateb i'r pandemig, sydd hyd yma wedi golygu gweithredu'n ddi-oed ac yn ymarferol wrth ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid yn gyflym.

69. Mae'r Bil yn darparu cynllun wrth gefn ar gyfer delio â'r achos gwaethaf drwy:

- a. byrhau hyd y diddymu sy'n caniatáu i'r Senedd eistedd am gyfnod hwy, gan gynnig y cyfle i graffu'n fwy ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r coronafeirws;
- b. diogelu'r cyfnod o amser rhwng y pŵl a chyfarfod cyntaf y Senedd, yng ngoleuni oedi posibl wrth gyfrif pleidleisiau;
- c. caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y rheolau pleidleisio drwy ddirprwy a chyflwyno enwebiadau; a
- d. ymestyn gallu'r Llywydd i symud dyddiad y pŵl fel cynllun wrth gefn pe bai cyfraddau heintio yn peri risg sylweddol i ddiogelwch a chyfreithlondeb y pŵl.

70. Mae pob un o'r mesurau hyn yn darparu mwy o hyblygrwydd a mesur wrth gefn pe bai achos gwaethaf yn digwydd. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fwrw ati gyda'r etholiad ar y dyddiad a nodwyd yn y gyfraith, ond mae'r Bil hwn yn darparu lefel ychwanegol o gamau lliniaru risg na all y senario busnes fel arfer ei darparu. Am y rheswm hwn, mae Opsiwn 2 yn bodloni'r amcan polisi yn well.

## 8. Costau a manteision

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer (*Business as usual*)

71. Opsiwn llinell sylfaen yw hwn ac fel y cyfryw eir i'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn p'un a fydd y Bil yn mynd rhagddo ai peidio.
72. Mae tabl A isod yn amcangyfrif cost yr etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodaeth o'r Senedd a drefnwyd ar gyfer 6 Mai 2021. Mae costau sylfaen yr amcangyfrif yn deillio o gostau gweinyddu'r etholiad cyffredinol arferol a gynhaliwyd yn 2016. Daw'r costau hyn o ffigurau a<sup>3</sup> gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi cael eu diweddarau i'r prisiau cyfredol gan ddefnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros i bennu'r costau ar gyfer 2021.

Tabl A

		<u>Cost 2016</u>	<u>Amcangyfrif 2021</u>
Awdurdod Lleol	Gorsafoedd Pleidleisio	1,429,000	1,554,000
	Pleidleisiau drwy'r Post	515,000	560,000
	Cerdyn Pôl	749,000	814,000
	Cyfrif	440,000	479,000
	Staff	197,000	214,000
	Ffioedd Swyddogion Canlyniadau	201,000	219,000
	<u>Cyfanswm</u>	<u>3,531,000</u>	<u>3,840,000</u>
	Mesurau'r coronafeirws		4,000,000.00
Llywodraeth Cymru	Contract y Post Brenhinol	4,000,000	4,000,000.00
<b><u>Cyfanswm Terfynol</u></b>		<b><u>7,531,000</u></b>	<b><u>11,840,000</u></b>

\*Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf

73. Fel y gellir gweld yn Nhabl A, yr awdurdodau lleol fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal yr etholiad. Yna codir y costau hyn yn ôl ar Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru. Cyfanswm cost amcangyfrifedig y tasgau gweinyddol sydd eu hangen i gynnal yr etholiad, ac a wynebwr gan awdurdodau lleol yw £3,840,000. Mae'n cwmpasu'r holl

<sup>3</sup> <https://lyw.cymru/costau-etholiad-cynulliad-cenedlaethol-cymru-2016>

elfennau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r etholiad gan gynnwys gorsafoedd pleidleisio, cardiau pleidleisio, papurau pleidleisio a staff.

74. Mae costau ychwanegol etholiad y Senedd yn 2021, ac nid rhai a gododd mewn perthynas ag etholiad 2016, ar gyfer mesurau sydd eu hangen at ddibenion lliniaru'r pandemig, megis cyfarpar diogelu personol a threfniadau cadw pellter cymdeithasol mewn gorsafoedd pleidleisio a manau cyfrif. Amcangyfrifwyd bod y costau ychwanegol hyn tua £4,000,000. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £4,000,000 ar gontract gyda'r Post Brenhinol sy'n caniatáu i bob ymgeisydd yn etholiad y Senedd anfon taflen ymgyrch bostio at bob etholwr cofrestredig. O ganlyniad, cyfanswm cost amcangyfrifedig yr etholiad yn 2021 yw £11,840,000.

75. Prif fantais dilyn yr opsiwn hwn yw mantais gyfansoddiadol. Nodir dyddiad yr etholiad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 at ddiben atal y rhai mewn grym rhag symud y dyddiad er budd gwleidyddol. Mae'n sicrhau eglurder i'r pleidleisiwr a'r ymgeisydd ac yn galluogi gweinyddwyr i wneud y gwaith paratoi yn effeithiol. Mae etholiadau yn cynrychioli swyddogaeth bwysig mewn democratiaeth, gan roi cyfle i bleidleiswyr leisio eu barn ar waith eu cynrychiolwyr etholedig a sicrhau y creffir arnynt i weld sut y maent wedi gwasanaethu'r cyhoedd yn ystod eu tymor yn y swydd. Mae'n hanfodol y gall pleidleiswyr fod yn ffyddiog y gallant ymarfer eu hawl sylfaenol i bleidleisio.

76. Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i gamau lliniaru gael eu rhoi ar waith at ddibenion lleihau'r risgiau a grëir gan y pandemig. Mae gweinyddwyr etholiadol yn addasu gorsafoedd pleidleisio a manau cyfrif er mwyn sicrhau bod arferion cadw pellter cymdeithasol a hylendid ar waith, yn ogystal â buddsoddi mewn cyfarpar diogelu personol a hyfforddiant ychwanegol i staff. Caiff pleidleiswyr eu hysbysu am yr opsiynau pleidleisio absennol sydd ar gael iddynt a'u hannog i'w defnyddio os dymunant.

77. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn yn lliniaru'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Nid yw'n gwarchod rhag y risg mai canran isel a fydd yn pleidleisio yn sgil y pandemig. Gall pleidleiswyr ar fyr rybudd ganfod na allant fynd yn bersonol i orsaf bleidleisio, a'i bod yn rhy hwyr iddynt gofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post ac na allant drefnu pleidlais drwy ddirprwy, er gwaethaf yr ymdrechion gorau i godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau hyn. Yn yr achos gwaethaf, gallai cyfradd heintio uchel iawn arwain at sefyllfa lle nad oes digon o staff abl ac iach ar gael i weinyddu'r pôl, gan olygu y bydd yr etholiad ei hun yn methu.

**Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd mewn cyfraith etholiadol, gan gynnwys estyniad i allu'r Llywydd i symud dyddiad y pôl.**

78. Bil galluogi ydyw yn bennaf, sy'n rhoi hyblygrwydd ychwanegol i ymateb i'r pandemig na fyddai ar gael o dan y rheolau presennol. Dim ond pe bai'r

penderfyniad yn cael ei wneud i ohirio'r etholiad yr eid i'r prif gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Disgwylir i'r holl gostau hyn godi yn 2021-22.

79. Fel y dengys Tabl A, awdurdodau lleol fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal yr etholiad, ac felly nhw fydd hefyd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig ag etholiad gohiriedig. Ni waeth a fydd yr etholiad yn cael ei ohirio tan ar ôl 6 Mai, bydd y paratodau ar gyfer diwrnod gwreiddiol y pŵl eisoes wedi cael eu gwneud a bydd y costau a nodir yn Opsiwn 1 yn gymwys. Mae hyn yn arbennig o wir gan y gallai'r pŵer arfaethedig i ohirio diwrnod y pŵl am reswm sy'n ymwneud â'r Coronafeirws gael ei ymarfer gan y Llywydd hyd at yr adeg y diddymir y Senedd. Mae'r Bil yn cynnig cyfnod diddymu byrrach cyn etholiad 2021 o 7 diwrnod calendr.
80. Mae Tabl B yn tybio bod costau llawer o'r materion ymarferol sy'n angenrheidiol i gynnal yr etholiad fel y nodir yn Opsiwn 1 wedi'u neilltuo cyn diwrnod y pŵl ac, wrth ohirio'r pŵl, bydd angen iddynt gael eu cyflwyno eto o reidrwydd ar gyfer y diwrnod newydd a bennwyd ar gyfer y pŵl yn yr etholiad. Achos gwaethaf yw'r dybiaeth hon ond mae'n darparu amcangyfrif o raddau'r costau ychwanegol, fesul gohiriad, a allai gronni o bosibl pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio. Mae'n hollol bosibl y gall y Swyddogion Canlyniadau drefnu i gostau ychwanegol gael eu harbed cyn unrhyw ohiriad ond oherwydd (a) y gallai'r gohiriad ddigwydd cyn lleied ag wyth diwrnod cyn diwrnod y pŵl; a (b) bod hyn yn fater i'r Swyddogion Canlyniadau yn llwyr, rydym o'r farn ei bod yn ddoeth amcangyfrif y costau ychwanegol posibl ar sail achos gwaethaf.

Tabl B

		<u>Amcangyfrif 2021 (llinell sylfaen – o Dabl A)</u>	<u>Costau ychwanegol a achosir gan yr oedi</u>
Awdurdod Lleol	Gorsafoedd Pleidleisio	1,554,000.00	1,554,000
	Pleidleisiau drwy'r Post	560,000	560,000
	Cerdyn Pŵl	814,000	814,000
	Cyfrif	479,000	479,000
	Staff	214,000	214,000
	Ffioedd Swyddogion Canlyniadau	219,000	219,000
	Mesurau'r coronafeirws	4,000,000.00	
	Cyfathrebu yn glŷn â newid y dyddiad		350,000

	I gwmpasu cyfraniad Llywodraeth y DU**		1,766,000
	<u>Cyfanswm</u>	<u>7,840,000</u>	<u>5,938,000</u>
Llywodraeth Cymru	Contract y Post Brenhinol	4,000,000.00	4,000,000.00
<b>CYFANSWM</b>		<b><u>11,840,000</u></b>	<b><u>9,938,000</u></b>

\*Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf

\*\* Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar gostau etholiad y Senedd yn 2016 a gafodd ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Cyfrannodd Llywodraeth y DU at y gost o gynnal yr etholiad, gan mai eu cyfrifoldeb hwy yw etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Pe bai'r etholiad yn cael ei symud fel na fyddai'r pleidleisiau hyn yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod, byddai rhaid i awdurdodau lleol dalu am y cyfraniadau a wnelid gan Lywodraeth y DU.

81. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer etholiad 2021 pe bai gohriiad yw £21,778,000. Byddai'r ffigur hwn yn cwmpasu'r costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad gwreiddiol a'r costau ychwanegol ar gyfer y pŵl a ohiriwyd. Fel y cyfryw, byddai'r Bil yn golygu bod awdurdodau lleol yn mynd i gostau ychwanegol amcangyfrifedig o £9,938,000 i ohirio diwrnod y pŵl tan ar ôl 6 Mai 2021.
82. Bydd y Bil hefyd yn cael effaith ar Gomisiwn y Senedd a'r Comisiwn Etholiadol. Nid yw'r costau hyn yn hysbys eto. Yn achos Comisiwn y Senedd, eid i gostau ychwanegol am weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw ohiriad o ddiwrnod y pŵl. Yn achos y Comisiwn Etholiadol, eid i gostau ychwanegol wrth weithio gydag awdurdodau lleol a darparu canllawiau, adnoddau a gwybodaeth i bleidleiswyr sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddyddiad gohriedig er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r etholiad.
83. Prif fantais yr opsiwn hwn yw galluogi rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer y pŵl a chaniatáu ar gyfer cynllun wrth gefn pe bai achos gwaethaf yn digwydd. Mae'r pandemig yn peri dwy risg i uniondeb yr etholiad: un i allu pleidleiswyr i gymryd rhan yn y pŵl; a'r llall i allu gweinyddwyr i gynnal y pŵl.
84. Mae cyfraddau heintio uchel yn peri risg ddifrifol o ddifreinio'r rhai y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu yn unol â chanllawiau'r coronafeirws. Caiff hyn effaith ehangach ar y rhai sy'n wynebu mwy o risg o ddal y feirws ac effeithiau'r feirws. Mae'n bosibl na all pleidleisiwr fynd i orsaf bleidleisio ar fyr rybudd ac y bydd yn rhy hwyr iddo gofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post ac ni all drefnu pleidlais drwy ddirprwy. Bydd y Bil yn ymestyn rheolau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys gofyniad i hunanynysu fel rheswm dilys dros gael pleidlais drwy ddirprwy, heb fod angen cael tystiolaeth feddygol. Bydd ymestyn pŵer y Llywydd i symud dyddiad y pŵl hefyd yn

caniatáu ar gyfer cynllun wrth gefn mewn achos gwaethaf. Drwy ohirio'r pŵl, bydd mwy o amser gennym i reoli'r feirws, ac felly bydd mwy o bleidleiswyr yn cymryd rhan yn yr etholiad, gan leihau'r achosion o ddifreinio'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

85. Yn yr achos gwaethaf, mae cyfraddau heintio uchel yn peri risg i gynnal yr etholiad ei hun. Os na fydd nifer uchel o staff sy'n ymwneud â gweinyddu'r pŵl yn ddigon iach i wneud hynny, gall fod yn anymarferol cynnal yr etholiad yn ddiogel ac yn deg.
86. Ond mae risg y câi'r opsiwn hwn ei feirniadu pe bai dyddiad y pŵl yn cael ei newid. Cytunodd yr holl gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad y dylid bwrw ati i gynnal y pŵl ar 6 Mai 2021 fel y cynlluniwyd. Dim ond ar ôl i bopeth arall fethu y dylid newid y dyddiad hwn, ac roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn na ddylid ei newid o dan unrhyw amgylchiadau. Gallai symud y dyddiad arwain at feirniadaeth nad yw pleidleiswyr yn cael yr hawl i leisio eu barn ar berfformiad eu cynrychiolwyr etholedig a bod y llywodraeth yn gweithredu ar sail cymhelliad gwleidyddol. Am y rheswm hwn, y Senedd ei hun fydd yn gorfod penderfynu'n derfynol a ddylid symud dyddiad y pŵl ai peidio.
87. Y bwriad yw y dylai'r etholiad ddigwydd fel y cynlluniwyd ar 6 Mai 2021. Fodd bynnag, byddai'n anghyfrifol peidio â gwneud paratodau ar gyfer achos gwaethaf lle mae'r pandemig yn peri risg i uniondeb y pŵl.
88. Nid yw'r costau mewn perthynas ag is-etholiadau awdurdodau lleol a fyddai'n cael eu gohirio o bosibl o dan ddarpariaethau yn y Bil yn hysbys eto, ond amcangyfrifwyd eu bod yn rhai bach iawn.

## 9. Aseidiadau Effaith

### Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?

89. Mae Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn gwneud darpariaeth i ymateb i'r risg bosibl i etholiad y Senedd yn 2021 sy'n deillio o'r pandemig, gyda'r nod o sicrhau y gellir gweinyddu'r etholiad a bwrw ati yn ddiogel, ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio. Dim ond i etholiadau 2021 y bydd y darpariaethau yn y Bil yn gymwys ac nid i unrhyw etholiadau dilynol.

90. Mae'r Bil yn ceisio:

- a. Ymestyn pŵer y Llywydd i amrywio dyddiad yr etholiad o un mis i chwe mis;
- b. Byrhau'r cyfnod Diddymu;
- c. Ymestyn hyd yr amser rhwng dyddiad y bleidlais a chyfarfod cyntaf y Senedd;
- d. Cynyddu hyblygrwydd o ran pleidleisio drwy ddirprwy a'r broses o enwebu ymgeiswyr;
- e. Gwneud darpariaeth i sicrhau y gall is-etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau etholaethol y Senedd gael eu gohirio os bydd angen;
- f. Rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil.

### Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cymhwyso:

#### *Hirdymor*

91. Mae etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal ar 6 Mai 2021, ac yn ystod y cyfnod hwn nid yw'n glir sut y bydd pandemig y coronafeirws yn effeithio ar fywyd yng Nghymru. Mae gweinyddwyr etholiadol yn cymryd camau lliniaru i leihau'r effaith ar bleidleiswyr a'u galluogi i gymryd rhan yn yr etholiad.

92. Dim ond newidiadau byrdymor a ddarperir gan y Bil ac maent ond yn gymwys i etholiadau 2021. Bwriedir i'r Bil ddarparu atebion byrdymor i broblem dros dro, ac yn y pen draw dim ond ar gyfer achos gwaethaf y bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu gwneud. Mae'r amserlen gyfyngedig y mae'r Bil yn gweithredu oddi fewn iddi yn cadw'r trefniadau a nodir yn y statud cyfansoddiadol, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ar gyfer etholiadau'r dyfodol.

93. Mae dwy fantais hirdymor yn gysylltiedig â'r Bil:



1. cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses etholiadol; a
2. lleihau'r risg i iechyd y cyhoedd.

### **Atal**

94. Bwriedir i'r Bil ddarparu cynllun wrth gefn ar gyfer achos gwaethaf lle mae'r cyfraddau heintio mor arwyddocaol fel nad yw'n ymarferol cynnal y pŵl. Mae mesurau anneddfwriaethol eraill yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg a berir i'r pleidleiswyr. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer symud y pŵl i ddyddiad diweddarach, gan alluogi i'r etholiad gael ei gynnal yn effeithiol gan weinyddwyr a galluogi pleidleiswyr i gymryd rhan yn hyderus ac yn ddiogel.
95. Dim ond os bydd mesurau ataliol eraill yn methu a bod y cyfraddau heintio yn uchel y defnyddir y pŵer i symud dyddiad y pŵl.

### **Integreiddio**

96. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrechion eang i fynd i'r afael â phandemig y coronafeirws. Mae hyn wedi cynnwys rhoi cyfyngiadau ar waith sy'n effeithio ar fywyd beunyddiol i leihau lledaeniad y coronafeirws ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol a chyhoeddi canllawiau i'r cyhoedd a busnesau ar sut y gallant leihau'r risg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r cyngor canlynol ar sut y gall y cyhoedd gadw Cymru yn ddiogel;
- peidio â mynd i dai eich gilydd, heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn
  - ceisio cyfyngu ar faint o bobl wahanol rydych yn cyfarfod â nhw
  - cadw pellter cymdeithasol
  - golchi eich dwylo yn rheolaidd
  - gweithio o gartref os gallwch chi
97. Er bod mesurau ymarferol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod etholiadau yn cydymffurfio â'r cyngor hwn, nid yw deddfwriaeth etholiadol gyfredol yn caniatáu ar gyfer yr hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i'r pandemig. Bydd yr addasiadau i'r rheolau pleidleisio drwy ddirprwy ac enwebiadau yn galluogi ymgeiswyr a phleidleiswyr i gydymffurfio â chyngor iechyd y cyhoedd a'u galluogi hefyd i gymryd rhan yn yr etholiad.

### **Cydweithio**

98. Cyfrifoldeb Swyddogion Canlyniadau yn bennaf yw cynnal yr etholiadau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan randdeiliaid eraill ddiddordeb mewn cynnal etholiadau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau datganoledig ac yn darparu adnoddau.
  - Mae gan y Comisiwn Etholiadol rôl i reoleiddio cyllid pleidiau a chyllid etholiadol ac mae'n pennu safonau ar gyfer sut y dylid cynnal etholiadau.

- Comisiwn y Senedd yw'r corff corfforedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer y Senedd.
- Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb am etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn 2021 ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Senedd.

99. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cymryd ei champau gweithredu ei hun mewn perthynas ag etholiadau Senedd yr Alban 2021, gan gyflwyno Bil Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) ar 16 Tachwedd 2020. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynnal pŵl gan gynnal pellter cymdeithasol a'r posibilrwydd o ohirio pŵl oherwydd amodau'r feirws. Mae'r Bil hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion gynnal etholiad ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post yn unig.

100. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod cynllunio ac yn parhau i wneud hynny. Ym mis Mehefin 2020, ceisiodd Llywodraeth Cymru farn gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau ar effaith y pandemig ar etholiad 2021.

### **Cyfranogiad**

101. Ym mis Mehefin 2020, penododd y Prif Weinidog grŵp dethol o randdeiliaid i ffurfio'r Grŵp Cynllunio etholiadau, a wahoddodd gynrychiolwyr i rannu eu barn ar ffyrdd o addasu Etholiadau'r Senedd yn 2021 yng ngoleuni'r pandemig.

102. Er mai materion ymarferol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol oedd nifer o argymhellion y Grŵp, mae angen atebion deddfwriaethol ar rai ohonynt er mwyn eu rhoi ar waith. Daeth y Grŵp i gonsensws ar y meysydd canlynol lle y byddai angen atebion deddfwriaethol:

1. dylid parhau i anelu at gynnal etholiad y Senedd ar 6 Mai fel y cynlluniwyd;
2. dylid sicrhau bod mwy o hyblygrwydd ynghylch pwy sydd â hawl i gyflwyno papurau enwebu a dylid caniatáu i bapurau gael eu cyflwyno'n electronig; a
3. dylid caniatáu mwy o hyblygrwydd ynghylch pleidleisio drwy ddirprwy.

103. Ni ddaeth y Grŵp i gonsensws ar y meysydd canlynol lle y byddai angen atebion deddfwriaethol hefyd er mwyn eu rhoi ar waith: -

1. pŵer i'r Llywydd, fel mesur wrth gefn, i ohirio dyddiad yr etholiad o fwy na mis, pe bai cyngor iechyd y cyhoedd yn nodi na fyddai'n ddiogel cynnal y pŵl;
2. addasu'r gofyniad i'r cyfarfod Llawn cyntaf gael ei gynnal 14 diwrnod ar ôl y pŵl i 14 diwrnod ar ôl y canlyniad (i adlewyrchu cyfnod cyfrif hwy siŵr o fod); a
3. ymestyn oriau pleidleisio – naill ai oriau hwy ar 6 Mai neu dros ddiwrnodau ychwanegol.

### **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

104. Canfuwyd bod y pandemig wedi cael effaith fwy ar grwpiau penodol, sy'n wynebu mwy o risg o ddal y feirws ac effeithiau'r feirws.
105. Nododd Llywodraeth Cymru fod pobl hŷn, a'r rhai ag anabledau penodol, yn rhai a oedd mewn categori risg uwch. Mae aelwydydd incwm isel yn aml yn ddibynnol ar incwm o alwedigaethau lle mae risg uwch o ddal y feirws, a lle nad yw gweithio gartref yn opsiwn. Mae pobl o nifer o grwpiau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn agored i ffactorau risg ychwanegol, megis byw mewn tai gorlawn, byw mewn ardaloedd difreintiedig neu gael eu cyflogi fel gweithwyr allweddol neu mewn galwedigaethau lle mae risg uwch o ddal COVID-19. Mae pob un o'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o wynebu risg o ddal y feirws ac felly maent naill ai'n hunanynysu i bob diben yn ystod cyfnod yr etholiad neu nid yw'r hyder ganddynt i fynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio yn bersonol ar ddiwrnod yr etholiad.
106. Gwnaeth Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau i aelodaeth o'r Senedd i bobl ifanc 16 ac 17 oed a chwblhawyd Asesiad Effaith Hawliau Plant ar gyfer y polisi hwnnw<sup>4</sup> Bydd pandemig y coronafeirws yn effeithio ar grwpiau penodol o bobl ifanc sy'n pleidleisio am y tro cyntaf mewn ffyrdd gwahanol. Efallai na all rhai grwpiau gymryd rhan a phleidleisio'n bersonol yn yr etholiad os bydd y gyfradd heintio ar ddiwrnod y pŵl neu'n agos at y diwrnod hwnnw yn arwyddocaol. Gall hyn gynnwys pobl ifanc â chyflyrau iechyd sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o ddal salwch difrifol os byddant yn dal y feirws. Gall hefyd gynnwys pobl ifanc sy'n byw gydag aelodau o'r teulu sydd eu hunain yn wynebu mwy o risg o ddal y feirws, oherwydd cyflyrau iechyd neu oedran. Byddai'r grwpiau hyn yn elwa ar y cynigion yn y Bil sy'n galluogi i ddiwrnod y pŵl gael ei ohirio am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.
107. Felly, ym marn Llywodraeth Cymru bydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn gadarnhaol, i'r graddau y byddai ei gwneud yn bosibl i'r etholiad gael ei ohirio am reswm sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yn darparu cynllun wrth gefn a fyddai'n caniatáu i'r rheini y mae'r pandemig yn

<sup>4</sup> Gweler y Memorandwm Esboniadol i Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru), tudalennau 230 to 254 (<https://senedd.cymru/laid%20documents/pri-ld12142-em-r/pri-ld12142-em-r-w.pdf>)

effeithio fwyaf arnynt i gymryd rhan yn ddiogel yn yr etholiad ar ddyddiad diweddarach pan fyddai'r cyfraddau heintio yn is.

***Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg***

108. Mae'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiadau yng Nghymru ac yn eu gweinyddu eisoes yn gorfod darparu deunyddiau ar gyfer etholiadau yn ddwyieithog ac ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar hynny. Felly bydd yr effaith yn fach iawn neu ni fydd unrhyw effaith o gwbl.

***Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder***

109. Nid yw'r Bil yn creu unrhyw droseddau newydd ac nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i droseddau presennol. Bydd y gyfraith etholiadol bresennol ar waith o hyd er mwyn sicrhau bod yr etholiad yn cael ei gynnal yn ôl y rheolau ac, i'r graddau y bydd y Bil yn addasu'r rheolau presennol ar gyfer cynnal etholiadau, rhagwelwn mai bach iawn fyddai'r effaith ar y system gyfiawnder neu ddim effaith o gwbl. Bwriadwn gynnal trafodaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch effaith y Bil ond nid yw effaith y Bil ar y system gyfiawnder yn hysbys ar hyn o bryd.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

110. Mae'r Bil yn cynnig addasiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i gyflwyno hyblygrwydd mewn agweddau ar y broses etholiadol i ymateb i effeithiau pandemig y coronafeirws. Yn benodol, mae'r Bil yn galluogi rhywun na all fynd i orsaf bleidleisio a phleidleisio yn bersonol ar ddiwrnod a pôl am ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth neu ganllawiau iechyd y cyhoedd i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar fyr rybudd heb yr angen am dystiolaeth feddygol. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd wrth gyflwyno papurau enwebu, yn cynnwys cyflwyno cydsyniad ymgeiswyr i enwebiad, sef opsiwn ar hyn o bryd sydd ond ar gael i ymgeiswyr sydd dramor ar yr adeg y mae angen i'w cydsyniadau priodol i enwebiad gael eu cyflwyno. Caiff effaith yr addasiadau hyn ar etholiad y Senedd yn 2021 ei hadolygu er mwyn asesu a ddylid cyflwyno'r mesurau dros dro hyn mewn pob etholiad ar gyfer aelodaeth o'r Senedd.

## **Atodiad 1**

### **Nodiadau Esboniadol**

#### **Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

---

1. Lluniwyd y nodiadau esboniadol hyn gan Lywodraeth Cymru i fynd gyda Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws). Yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru (Rheol Sefydlog 26.6(vii)), mae'r nodiadau esboniadol hyn yn crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob darpariaeth yn y Bil ei wneud. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Bil.

#### **Trosolwg o'r Ddeddf**

2. Mae etholiad cyffredinol arferol y Senedd i fod i gael ei gynnal ar 6 Mai 2021. Bydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith ar yr etholiad, a bydd hyd a lled yr effaith honno yn dibynnu ar nifer yr achosion o'r coronafeirws cyn yr etholiad ac ar adeg yr etholiad. Diben y Ddeddf yw rhoi ystod o fesurau dros dro ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r etholiad cyffredinol arferol yn ddiogel ac yn llwyddiannus yng nghyd-destun y materion iechyd cyhoeddus a achosir gan y pandemig, gan gynnwys symud diwrnod y pŵl os yw'n angenrheidiol ac yn briodol gwneud hynny am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.
3. Dim ond ar gyfer etholiad cyffredinol arferol y Senedd sydd i fod i gael ei gynnal yn 2021 y mae'r mesurau ar waith ac nid ar gyfer unrhyw etholiad dilynol.
4. Mae'r Ddeddf hefyd yn ymateb i'r risgiau posibl sy'n deillio o'r coronafeirws drwy alluogi i is-etholiadau awdurdodau lleol gael eu gohirio y tu hwnt i 6 Mai 2020 os bydd angen.

#### **Adran 1: Etholiad 2021**

5. Mae'r adran hon yn diffinio'r term allweddol yn y Bil, "etholiad 2021", fel yr etholiad cyffredinol arferol ar gyfer aelodau Senedd Cymru y disgwylir i'r bleidlais ar ei gyfer gael ei chynnal yn 2021. Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw etholiad cyffredinol dilynol i fod yn Aelod o'r Senedd.

#### **Adran 2: Cymhwyso darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

6. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodedig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai 2021 a fyddai fel arall yn gymwys i'r etholiad. Yn benodol, nid yw is-adrannau (2) i (4) o adran 3 o

Ddeddf 2006 (diddymu Senedd Cymru cyn etholiad cyffredinol arferol a dyddiad y cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad) yn gymwys i'r etholiad y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion hyn ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol yn 2021 yn adrannau 3 a 4 (gweler isod).

7. Mae adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n rhagnodi 6 Mai 2021 fel diwrnod y pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol yn cael effaith yn ddarostyngedig i fesurau sydd wedi eu cynnwys yn adran 5 o'r Ddeddf i symud diwrnod y pŵl os yw'n angenrheidiol ac yn briodol gwneud hynny am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.
8. Nid yw adran 4(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru (y cyfnod y mae rhaid i'r Senedd gyfarfod ynddo pan fo diwrnod y pŵl wedi ei amrywio drwy broclamasïwn) yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai 2021.
9. Mae adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â seddi etholaethol gwag, gan gynnwys pennu diwrnod y pŵl ar gyfer is-etholiad, yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r mesurau sydd wedi eu cynnwys yn adran 7 o'r Ddeddf am y rhesymau a nodir ym mharagraff 5 uchod.

### **Adran 3: Diddymu'r Senedd gyfredol**

10. Y sefyllfa arferol cyn etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd yw bod y Senedd wedi ei diddymu ar ddechrau'r "isafswm cyfnod" ("minimum period") sy'n dod i ben â diwrnod y pŵl yn yr etholiad (adran 3(2)(a) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yr "isafswm cyfnod" yw 21 o ddiwrnodau, ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, diwrnod sy'n ŵyl banc ac yn y blaen (erthygl 148 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a rheol 2 o Atodlen 5 iddo). Pan y'i diddymir, mae Aelodau'r Senedd yn peidio â dal swydd yn rhinwedd adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
11. Mae'r adran hon yn darparu, cyn y diwrnod y mae'r pŵl i fod i gael ei gynnal ar 6 Mai 2021, y bydd y Senedd yn cael ei diddymu ar 29 Ebrill, cyfnod o 7 niwrnod calendr cyn diwrnod y pŵl, oni bai: -
  - a. bod y Llywydd yn arfer y pŵer a roddir gan adran 5 o'r Ddeddf i ohirio diwrnod y pŵl ar gyfer yr etholiad; neu
  - b. bod Ei Mawrhydi yn diddymu'r Senedd cyn y dyddiad hwnnw drwy broclamasïwn o dan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
12. Os bydd y Llywydd yn arfer y pŵer a roddir gan adran 5 o'r Ddeddf, y dyddiad diddymu fydd 7 niwrnod calendr cyn y dyddiad newydd a bennir ar gyfer diwrnod y pŵl. Os yw'r Llywydd yn arfer y pŵer ar fwy nag un achlysur ac yn gohirio diwrnod y pŵl ymhellach, bydd y dyddiad diddymu

yn olrhain y dyddiad newydd a bennir ar gyfer y pŵl a bydd 7 niwrnod calendr cyn y dyddiad newydd a bennir.

#### **Adran 4: Dyddiad y gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2021**

13. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Senedd gyfarfod o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau yn union ar ôl diwrnod yr etholiad.
14. Bwriedir i'r ddarpariaeth ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd a darparu ar gyfer oedi posibl wrth gyfrif pleidleisiau a chadarnhau canlyniadau oherwydd mesurau coronafeirws megis cadw pellter corfforol a rheolau iechyd cyhoeddus eraill a all fod mewn grym o hyd ar adeg yr etholiad, ac mae'n darparu dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid i gyfarfod cyntaf y Senedd sydd newydd ei hethol gael ei gynnal.

#### **Adran 5: Pŵer i ohirio etholiad 2021 am hyd at 6 mis**

15. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i'r Llywydd i ohirio'r etholiad cyffredinol arferol y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai 2021. Mae'r pŵer hwn yn ychwanegol at bŵer presennol y Llywydd i amrywio dyddiad y pŵl ar gyfer etholiad cyffredinol arferol a nodir yn adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (pŵer i amrywio dyddiad yr etholiad cyffredinol arferol). Dim ond am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws y gall gohirio o dan yr adran hon o'r Ddeddf fod. Mae'r adran yn galluogi i'r etholiad gael ei ohirio am gyfnod o hyd at 6 mis, tan 5 Tachwedd 2021 ar yr hwyraf.
16. Mae'r adran yn rhoi pwerau penodol ymhellach i'r Prif Weinidog a'r Llywydd ac mae'n gwneud penderfyniad gan uwchfwyafrif o'r Senedd yn ofynnol cyn y gellir gohirio'r pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol a phennu diwrnod newydd ar gyfer cynnal y pŵl ar gyfer yr etholiad. Gellir arfer y pwerau fwy nag unwaith, fel y gallai fod yn angenrheidiol yng nghyd-destun pandemig y coronafeirws sy'n datblygu.
17. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i'r Prif Weinidog i gynnig i'r Llywydd fod y pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2021 yn cael ei ohirio am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws pan fo'r Prif Weinidog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny. Mae hyn yn cydnabod y swyddogaethau a arferir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymateb iechyd y cyhoedd i bandemig y coronafeirws. Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi'r wybodaeth na'r data y mae rhaid i'r Prif Weinidog eu darparu i'r Llywydd i gefnogi'r cynnig.
18. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i'r Llywydd, yn dilyn cynnig gan y Prif Weinidog, i ohirio diwrnod y pŵl a phennu dyddiad diweddarach ar gyfer cynnal y pŵl ar gyfer yr etholiad. Mae pŵer y Llywydd yn ddarostyngedig i ddau amod: -



- a) y Senedd, drwy benderfyniad sy'n cael ei basio gan ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer seddi'r Senedd, yn cymeradwyo'r diwrnod sydd i'w bennu ar gyfer cynnal y pŵl ar gyfer yr etholiad; a
- b) ni chaniateir diddymu'r Senedd.

19. Rhaid i'r diwrnod newydd a bennir ar gyfer cynnal y pŵl fod y diwrnod cynharaf y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn rhesymol ymarferol, gan ystyried y cynnig a wnaed gan y Prif Weinidog, ac ni chaiff fod yn hwyrach na 5 Tachwedd 2021. Rhaid i'r Llywydd osod gerbron y Senedd ddatganiad o'r diwrnod a bennwyd ar gyfer cynnal y pŵl a'r rhesymau dros arfer y pŵer i wneud hynny.
20. Drwy arfer y pwerau o dan adran 5, caiff y Llywydd neu'r Prif Weinidog ofyn am gyngor gan y Comisiwn Etholiadol mewn cysylltiad ag unrhyw ohirio. Pan fo'r cyngor hwn yn cael ei geisio, mae dyletswydd benodol ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i'r Llywydd neu'r Prif Weinidog.
21. Nid yw adran 5 o'r Ddeddf yn cyfyngu ar bŵer y Llywydd i amrywio dyddiad y pŵl ar gyfer etholiad cyffredinol arferol a nodir yn adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Adran 6: Pŵer pellach i amrywio dyddiad etholiad 2021**

22. Diben yr adran hon yw rhoi pŵer i'r Llywydd i amrywio ymhellach ddyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad yn 2021 pan fo'r diwrnod ar gyfer cynnal y pŵl wedi ei bennu o dan adran 5 o'r Ddeddf. Nid oes rhaid arfer y pŵer hwn am resymau sy'n ymwneud â'r coronafeirws.
23. Wrth arfer y pŵer hwn o dan adran 6 o'r Ddeddf, caiff y Llywydd gynnig dyddiad ar gyfer cynnal y pŵl nad yw'n fwy na mis yn gynharach nac yn fwy na mis yn ddiweddarach na'r dyddiad a bennir ar gyfer cynnal y pŵl o dan adran 5. Ni chaiff y Llywydd arfer y pŵer i gynnig dyddiad sydd ar ôl 5 Tachwedd 2021.
24. Os yw'r Llywydd yn cynnig dyddiad, caiff Ei Mawrhydi drwy broclamasïwn o dan y Sêl Gymreig diddymu'r Senedd a'i gwneud yn ofynnol i'r pŵl yn yr etholiad fynd rhagddo ar y diwrnod a gynigiwyd. Byddai dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd yn digwydd yn unol ag adran 4 o'r Ddeddf.

### **Adran 7: Pŵer i ohirio is-etholiadau'r Senedd**

25. Diben yr adran hon yw galluogi i is-etholiadau ar gyfer etholiadau etholaethol sy'n codi ar ôl 6 Mai 2021 gael eu gohirio. Mae'r adran yn darparu, pan fo swydd etholaethol wag yn codi ar ôl y 6 Mai hwnnw, y gellir cynnal is-etholiad ar ddyddiad a bennir gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Rhaid cynnal yr is-etholiad cyn 5 Tachwedd 2021 ond caiff y Llywydd bennu dyddiad ar gyfer y pŵl sydd y tu

allan i'r cyfnod gofynnol sydd ar hyn o bryd yn cael ei roi o dan adran 10(5) neu (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

26. Fel gydag adran 5, caniateir defnyddio'r pŵer i ohirio is-etholiad fwy nag unwaith.

### **Adran 8: Pŵer i ohirio is-etholiadau awdurdodau lleol**

27. Diben yr adran hon yw galluogi i is-etholiadau i lenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, pan fyddai dyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad wedi dod fel arall rhwng y cyfnod sy'n dechrau â 6 Mai 2021 ac sy'n dod i ben â 5 Tachwedd 2021, gael eu gohirio drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd adran 12(2) o'r Ddeddf, mae'r pŵer yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, sef dull gweithredu sy'n gyson â'r hyn a geir yn adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n galluogi i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio tan 6 Mai 2021.

### **Adran 9: Effaith y Ddeddf ar y pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau**

28. Diben yr adran hon yw egluro nad yw'r Ddeddf yn effeithio ar bŵer presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau'r Senedd. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau a gwnaed y gorchymyn diwygio diweddar gan Weinidogion Cymru gan ddibynnu ar y pŵer a roddir gan adran 13 o Ddeddf 2006.

### **Adran 10: Addasu Gorchymyn 2007**

29. Mae'r adran hon yn gwneud addasiadau i ddarpariaethau penodol o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd) ("y Gorchymyn Trefn Cynnal Etholiad") a fydd yn gymwys i'r etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai 2021.

30. Mae is-adran (3) yn gwneud addasiad i erthygl 84(2) o'r Gorchymyn Trefn Cynnal Etholiad a'r pwynt pan fydd person yn dod yn ymgeisydd yn yr etholiad. Mae hyn ynghlwm wrth ddi-ddymu'r Senedd ar hyn o bryd. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn cwtogi cyfnod y diddymiad (gweler paragraffau 10 i 11 uchod). Felly, mae is-adran (4) yn datgysylltu'r adeg y daw person yn ymgeisydd o'r adeg y'i diddymwyd. Bydd person yn dod yn ymgeisydd 21 o ddiwrnodau cyn 6 Mai (wedi ei gyfrifo gan ddiystyru diwrnodau penodol

gan gynnwys diwrnod sy'n ddydd Sadwrn neu'n ddydd Sul neu'n wyl banc). Dyma'r dyddiad y byddai'r Senedd wedi ei diddymu ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol ar 6 Mai pe na bai adran 3 o'r Ddeddf wedi gwneud darpariaeth i gwtogi cyfnod y diddymiad. Byddai person yn aros yn ymgeisydd (oni chaiff ei ymddiswyddo neu ei ddad-ddewis, er enghraifft) hyd yn oed pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio yn unol ag adran 5 (neu yn ôl y digwydd, adran 6) o'r Ddeddf hyd at ddyddiad sy'n hwyrach na 6 Mai 2021.

31. Mae gan y ddarpariaeth hon oblygiadau i'r "cyfnod rheoleiddiedig" ("regulated period") ar gyfer gwariant ymgyrchu ar gyfer yr etholiad o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Bydd y cyfnod rheoleiddiedig yn parhau i fod yn gysylltiedig â 6 Mai 2021 a bydd yn dechrau 4 mis cyn y dyddiad hwnnw ni waeth unrhyw ohirio tan ddyddiad y pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf.
32. Mae is-adran (4) yn gwneud addasiad i reol 7 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn Trefn Cynnal Etholiad i gyflwyno hyblygrwydd ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy pan fo person yn canfod na ellir disgwyl yn rhesymol iddo bleidleisio yn bersonol oherwydd ei bod yn ofynnol iddo gydymffurfio â deddfiad sy'n ymwneud â'r coronafeirws neu ei fod yn dilyn canllawiau sy'n ymwneud â'r coronafeirws a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Ni fydd yn ofynnol tystio'n feddygol ar gyfer cais am bleidlais drwy ddirprwy ar frys o dan yr amgylchiadau hyn.
33. Mae is-adran (5) yn gwneud addasiad i Atodlen 5 (rheolau etholiad y Senedd) i'r Gorchymyn Trefn Cynnal Etholiad i gyflwyno hyblygrwydd i'r broses ar gyfer cyflwyno papurau enwebu a chydsyniad ymgeiswyr i enwebu mewn ymateb i'r heriau a gyflwynir gan bandemig y coronafeirws. Mae cyflwyno papurau enwebu a chydsyniad i enwebiadau yn broses corfforol yn hytrach na phroses rithwir. Felly, mae'r addasiadau yn rhoi mwy o amser ym mhob diwrnod ar gyfer cyflwyno papurau enwebu (9.00am i 5.00pm yn hytrach na 10.00am i 4.00pm). Yn ogystal, gellir cyflwyno papurau enwebu ar ran ymgeisydd gan berson a enwebwyd gan yr ymgeisydd at y diben hwnnw drwy roi enw a chyfeiriad y person i'r swyddog canlyniadau yn ysgrifenedig neu'n electronig cyn neu ar yr adeg y cyflwynir y papur enwebu.
34. Mae'r addasiad terfynol mewn perthynas â chydsyniad ymgeiswyr i enwebiad. O dan y rheolau yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn Trefn Cynnal Etholiad, nid oes ffurf ragnodedig ar gyfer cydsyniad i enwebu, ar yr amod ei fod yn ysgrifenedig, yn cael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau yn yr amser penodedig ac wedi ei dystio gan dyst. Pan fo ymgeisydd dramor, gellir ei chyflwyno drwy ffacs neu ddulliau tebyg eraill – ac yn arbennig heb y gofyniad i dyst dystio. Ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol i fod yn

Aelod o'r Senedd y bwriedir ei gynnal ar 6 Mai 2021, mae'r Ddeddf yn addasu'r rheolau presennol i alluogi ymgeiswyr i gyflwyno eu cydsyniad priodol i enwebu yn yr amser a bennir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu naill ai'n ysgrifenedig yn y man i gyflwyno'r papurau hynny neu'n electronig i gyfeiriad electronig at y diben hwnnw. Nid yw'n ofynnol i dyst dystio i gydsyniad ymgeisydd i enwebu.

### **Adran 11: Dehongli**

35. Mae'r adran hon yn darparu ystyr termau allweddol a ddefnyddir drwy gydol y Ddeddf.

### **Adran 12: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.**

36. Mae'r Ddeddf yn darparu mesurau i ymateb i heriau pandemig y coronafeirws a'i diben yw rhoi ystod o fesurau dros dro ar waith i sicrhau y gellir cyflawni'r etholiad cyffredinol arferol yn ddiogel ac yn llwyddiannus yng nghyd-destun y materion iechyd cyhoeddus a achosir gan y pandemig. Mae'r pandemig yn ddigwyddiad na welwyd ei debyg o'r blaen ac mae ei effaith wedi ei theimlo ar draws pob agwedd ar y gymdeithas a'r economi. Er bod y mesurau yn y Ddeddf yn ymateb i'r effeithiau hynny, mae cymhlethdod y sefyllfa yn golygu ei bod yn bosibl na ragwelwyd pob un o effeithiau posibl y coronafeirws ar yr etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd yn 2021 ac na ddarparwyd ar eu cyfer yn llawn.

37. Felly, mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed y maent yn ystyried eu bod yn briodol at ddibenion rhoi effaith lawn i'r Ddeddf neu mewn cysylltiad â rhoi effaith lawn iddi. Gall rheoliadau a wneir gan ddibynnu ar y pŵer addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf ei hun. Mae'r pŵer yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, sef dull gweithredu sy'n gyson â'r hyn a geir yn adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n galluogi i is-etholiadau llywodraeth leol gael eu gohirio tan 6 Mai 2021. Mae'r pŵer i wneud Gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd drwy'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

### **Adran 13: Dod i rym**

38. Mae'r adran hon yn darparu y daw'r Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

## Atodiad 2

### Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl X

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tudalen 1
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 – Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalennau 5-14
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalennau 21-30
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;  (b) manylion y Bil, ac  (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalennau 15-17

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalennau 15-17
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalennau 15-17
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;	Atodiad 1 – Nodiadau esboniadol	Tudalennau 37-43
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:  (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;  (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;  (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;  (d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalennau 21-30

Rheol sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
	(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio	
26.6(ix)	Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori	Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
	adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio		
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalennau 21-30
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgyrnhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B am Dabl Tarddiadau yn berthnasol i'r Bil hwn oherwydd bod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth ar ei ben hun ac nid yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli eisoes at ddibenion diwygio neu gydgyrnhoi.	
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C am Atodlen o Ddiwygiadau yn berthnasol i'r Bil hwn oherwydd nid yw'r Bil hwn yn cynnig diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli eisoes.	



Noder: mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi yn unswydd er mwyn helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws). Ni ddylid dibynnu arni am unrhyw ddiben arall.